Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Ffairfach

**Ysgol Gynradd Ffairfach**
**Ffairfach**
**Llandeilo**
**SA19 6SY**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Ffairfach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ffairfach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Personau cofrestredig | Delyth Beynon/Catrin Parish-Marks |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Catrin Parish-Marks |
| Person â gofal | Fiona Redfern |
| Nifer y lleoedd | 22 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9yb ac 1yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasaneth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf yn dilyn cofrestriad y lleoliad fel Sefydliad Elusennol Corfforedig. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 13/11/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd adnoddau yn yr ardal allanol i gefnogi profiadau dysgu a chwarae'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn cael cyfleoedd cyson i wneud dewisiadau annibynnol yn ystod y sesiynau. Mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn gwenu wrth gyrraedd ac yn mynd yn syth i ddewis eu hoff ardal ac ymgysylltu'n ystyrlon â'r gweithgareddau.

Mae bron bob un plentyn yn hyderus wrth ddewis eu byrbrydau ac maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r ymarferwyr, sy'n cael effaith dda ar eu lles. Er enghraifft, maent yn trafod eu teimladau gyda'r ymarferwyr yn fyrlymus wrth rolio a thorri toes. Yn ogystal, mae'r plant yn dangos hoffter tuag at ei gilydd ac maent yn hapus a chysurus wrth gydchwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r gweithgareddau chwarae rhydd ynghyd ag ychydig o weithgareddau mwy ffurfiol. Maent yn gwneud dewisiadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae ac yn dilyn eu hoffterau personol yn dda, fel yn yr ardal chwarae rôl wrth osod y bwrdd.

Mae llawer o blant yn dyfalbarhau â'u gweithgareddau am gyfnodau priodol wrth ystyried eu camau datblygu, er enghraifft wrth iddynt adeiladu tyrau gyda siapiau tryloyw ar fwrdd olau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn ymuno'n frwdfrydig yn y profiadau dysgu a chwarae, gydag ychydig yn chwerthin yn frochus wrth iddynt ddiffodd canhwyllau ffug gyda chefnogaeth ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n dda â phlant eraill, fel rhannu a chymryd tro wrth ddefnyddio morthwyl a gwisgo het galed yn yr ardal adeiladu. Dangosant

gyfeillgarwch tuag at ei gilydd wrth gadw seddau i'w ffrindiau yn ystod amser byrbryd. Wrth chwarae yn yr ardal chwarae rôl, maent yn dangos medrau rhannu effeithiol gan gynnig cadair yn ôl i blentyn a chasglu cadair arall er mwyn ailymuno yn y chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Maent yn ymfalchïo pan fyddant yn cael eu canmol gan yr ymarferwyr am dacluso ac adnabod gwahanol liwiau. Mae bron bob un yn helpu eu hunain i gwpan a diod yn ystod amser byrbryd, gan arllwys llaeth eu hunain ac estyn eu ffrwythau o bowlenni gyda llwy. Maent yn diwallu eu hanghenion personol yn bwrpasol trwy fynd i'r tŷ bach ac ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, fel golchi'u dwylo a gosod y tywelion papur yn y bin yn ofalus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae perthnasoedd twymgalon iawn yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn helpu'r plant i feithrin ymddiriedaeth ymysg ei gilydd ac maent yn siarad ag ymarferwyr yn annwyl ac yn trin eu cyfoedion â pharch. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn aml, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygu eu hunanhyder a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd gofalu am ei gilydd. Maent yn gweithredu fel modelau rôl da iawn ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol gan wrando, cydweithio ac esbonio mewn ffordd glir a synhwyrol.

Mae ymarferwyr yn caniatáu'r plant i ddewis a dethol eu hadnoddau eu hunain yn dda. Maent yn holi ac yn ehangu datblygiad y plant yn bwrpasol, er enghraifft wrth herio'r plant i gwblhau jig-sos yn annibynnol ac i ffurfio siapiau yn y twba reis a chorbys. Maent yn sgwrsio â'r plant yn ddeallus ac yn manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno geirfa Gymraeg yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau annibynnol, fel eu hannog i ddewis a dethol o'r ffrwyth amrywiol sydd ar gynnig iddynt adeg amser byrbryd. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o anghenion dysgu ychwanegol ac yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allweddol i gefnogi'r plant.

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach, gan gynnwys hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac ymarfer corff. Mae'r gweithdrefnau ac arferion hylendid yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio byrddau'n ofalus cyn byrbrydau ac yn golchi eu dwylo'n rheolaidd. Maent yn ymwybodol o anghenion iechyd y plant ac mae ganddynt weithdrefnau clir i gefnogi'r anghenion hyn. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un o'r ymarferwyr, sy'n sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r prosesau i ddilyn.

Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion am ddamweiniau a digwyddiadau yn drylwyr. Caiff y rhain eu llofnodi gan rieni a gofalwyr i dystio eu bod yn cael y wybodaeth angenrheidiol hon am eu plant. Mae'r holl ymarferwyr yn hyderus ynglŷn â sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn addas ar gyfer pob achlysur. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer derbyn y plant i'r lleoliad ac wrth iddynt adael yr adeilad yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu cefnogol yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio a dysgu'n bwrpasol, sy'n cael effaith dda ar eu dysgu a'u medrau. Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu a chwarae ysgogol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i adeiladu strwythurau gwahanol trwy ddefnyddio siapiau tri dimensiwn a chymysgu tywod o wahanol liwiau yn y twb dŵr.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod profiadau dysgu. Maent yn annog y plant yn ddeallus i arbrofi yn eu chwarae ac i weithio'n annibynnol, fel cyfatebu siapiau i flychau penodol a gwneud marciau gyda brigyn yn y corbys. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol â'r plant wrth iddynt chwarae. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cymell plant i rifo eliffantod gyda'i gilydd a defnyddio torrwyr clai i greu anifeiliaid toes ar y cyd.

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys parodrwydd i ddilyn diddordebau'r plant yn dda. Maent yn addasu eu cynllunio'n synhwyrol i sicrhau bod y plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol, fel arbrofi gyda phaent a dewis lliwiau cyn iddynt brintio pry copyn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd y plant ac maent yn eu holi'n dda wrth iddynt chwarae. Gwneir hyn, er enghraifft, trwy roi cyfleoedd i'r plant drafod storïau am helyntion gwrach ac wrth iddynt greu marciau gyda chreonau lliwgar yn yr ardal ysgrifennu cynnar. Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd a digidol effeithiol ymysg y plant. Maent yn eu herio i ddidoli a rhifo cyrc, allweddi a cherrig mân yn yr ardal ymchwilio a defnyddio teganau rhaglenadwy i symud o un man i'r llall.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'u harsylwadau ar gyflawniadau'r plant yn dda, ac maent yn cyfatebu i'w hasesiadau yn bwrpasol. Mae hyn yn arwain at gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar gyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i ddringo'n ofalus ar gyfarpar antur a gyrru beiciau o gwmpas llwybrau yn yr

ardal allanol. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau creadigol buddiol, fel cefnogi'r plant i ddarlunio hunanbortreadau.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda, fel astudio hanes Santes Dwynwen a dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Yn ogystal, maent yn astudio amrywiaeth yn ddeallus. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali, a thrafod llyfrau sy'n ymwneud ag amrywiaethau pobloedd gwahanol y byd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ymarferwyr yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y plant. Maent yn cadw cofnod manwl o'r holl blant wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad, ac mae'r rhain yn cynnwys ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn cadw'r prif ddrysau ar glo ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn eu lle, sy'n amlinellu'r camau i leihau neu atal unrhyw berygl i blant. Mae'r rhain yn bwydo'r rhestr wirio ddyddiol yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn lleihau risgiau yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn cynnal driliau tân cyson ar y cyd â'r ysgol er mwyn i blant gyfarwyddo â'r gweithdrefnau. Yn ogystal, mae arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt dystysgrifau diogelwch ac yswiriant boddhaol yn eu lle ar gyfer y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar, sy'n sicrhau eu bod yn teimlo'n gartrefol. Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu tu mewn i'r adeilad yn dda ac yn sbarduno chwarae a dychymyg y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynnig dewis o liwiau gliter gwahanol er mwyn i'r plant eu gludo ar bapur i greu darlun o'u dewis. Mae ardal allanol eang ar gael er mwyn galluogi plant i ddatblygu'n gorfforol, yn greadigol ac i fod yn chwilfrydig. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr ardal a'r adnoddau allanol yn ddigon effeithiol i gefnogi profiadau'r plant ymhellach.

Mae cyfleusterau da ar gael i blant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol ac mae ystafell ar wahân ar gyfer newid cewynnau i sicrhau a pharchu preifatrwydd y plant. Mae'r ardaloedd tu mewn wedi eu trefnu'n fwriadus i gynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un weithgaredd i'r llall yn effeithiol. Er hyn, prin yw'r defnydd o adnoddau naturiol i ddarparu profiadau dilys ar gyfer y plant.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod arddangosfeydd deniadol yn creu ymdeimlad cryf o berthyn yn y lleoliad. Er enghraifft, mae gwaith creadigol y plant a ffotograffau o'u cynnyrch wedi eu harddangos yn gelfydd. Yn ogystal, mae cornel gysurus wedi ei threfnu'n bwrpasol er mwyn cynnig cyfle i blant orffwys a chael amser tawel pe baent yn dymuno.

Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r plant yn helpu eu hunain i'r gwisgoedd a'r adnoddau yn yr ardal adeiladu cyn mynd ati i ddefnyddio'r briciau ffôm i adeiladu. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol ac i arbrofi drostynt eu hunain. Mae'r dodrefn,

cyfarpar, teganau ac adnoddau tu mewn yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn ogystal, anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy gael mynediad at deganau a llyfrau amlddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar wella'r ddarpariaeth a datblygu deilliannau'r plant. Mae ganddynt weledigaeth glir ac maent yn cydweithio'n gydwybodol i hybu'r gofal a chefnogi dysgu'r plant. O ganlyniad, mae eu harferion cyson a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd difyr a phrofiadau diddorol i'r plant, yn enwedig tu mewn i'r adeilad.

Mae arweinwyr yn darparu gofal tyner a bugeiliol i'r plant, sy'n creu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r awyrgylch ofalgar hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau ystyrlon â'r rhieni a'r gofalwyr am ddatblygiad eu plant. Defnyddiant gyfryngau cymdeithasol yn synhwyrol i ddarparu gwybodaeth berthnasol iddynt am gyflawniadau eu plant yn y lleoliad.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n fwriadus fel tîm ac yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysgu a'u harferion gofal. O ganlyniad, maent yn uchelgeisiol ac yn awyddus i lwyddo. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y prosesau ar gyfer goruchwylio, gwerthuso ac arfarnu gwaith a datblygiad yr holl ymarferwyr yn gadarn.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol, sy'n arwain at dargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion sydd angen sylw yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau i annog y plant i rannu'n well wrth chwarae.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl randdeiliaid i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant, fel awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. O ganlyniad, maent yn llwyddo i ddatblygu eu medrau ymhellach wrth gynllunio yn y foment ac asesu cryfderau ac anghenion unigolion.

Mae gan yr arweinwyr berthynas dda â'r ysgol. Mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol ac maent yn rhannu'r safle yn synhwyrol. Mae'r lleoliad yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn ddeallus, ac maent yn defnyddio'r ardal gyfagos yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r parc a gerddi cyhoeddus ac yn gwahodd ffermwr ag oen i'r lleoliad i gyfoethogi dysgu'r plant.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu adnoddau'n dda. Maent yn defnyddio'r gyllideb yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn

ddeallus, fel caledwedd a theganau digidol a dodrefn a chyfarpar newydd yn yr ardaloedd cartref ac adeiladu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 18 Ionawr 2024